# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 01/05/2024 |
| **Amser** | 9.30 tan 11.30 |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Aelodau** | Claire Armistead (CA – Ysgol Uwchradd y Rhyl), (Cadeirydd) Mark Hatch (MH) - Dinas Bran, Helen Vernon (HV) - Bodnant, , Nicola Griffiths (NG) – Pendref, , Glen Williams – Ysgol Uwchradd Dinbych (AW), Geraint Davies (Pennaeth Addysg), Lindsay Davenport (LD) Is-gadeirydd – Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgolion Uwchradd, Cynghorydd Gill German (GG) – Aelod Arweiniol Addysg, Sian Alwen (SA) - Ysgol Glan Clwyd, Rona Jones (RJ) - Emmanuel, Dafydd Davies (DD) – Twm o'r Nant, Leah Crimes (LC) – St Brigids, Neil Foley – Ysgol Uwchradd Prestatyn, Teleri Llwyd (TLl) – Borthyn |
| **Rhai nad ydynt yn aelodau** | Craig Joyce (CAJ) -Rheolwr Cyllido Ysgolion, Cathy Howatson (CH) (Cofnodion), Liz Thomas (LT) - Pennaeth Cyllid, Kev Mowbray (KM) – Cynrychiolydd Rhwydwaith B&F, Daisy Pierce (DP) Swyddog Cyllid a Sicrwydd |
| **Ymddiheuriadau** | Bethan Fell – Gwernant, Bernadette Thomas – CTW, Rhona O'Neill - Tir Morfa, Trefor Jones, Brynhyfryd, Colette Owen – Esgobaeth |

## 1. Croeso

Croesawodd CA y grŵp.

**Roedd 14 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.**

## 2. Materion yn codi a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Dim materion yn codi. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25/01/24 gan y fforwm.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb 2025/26 – Liz Thomas

Mynychodd LT y cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad sydd hefyd wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet, oedd yn cynnwys pwysau a lle'r ydym yn chwilio i leihau costau a gorwariant mewn meysydd allweddol ar draws yr ALl.

## Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

Mae cynnig wedi cael ei grybwyll yn y ddogfen am arbedion o 3-5% ar gyfer ysgolion yn 2025/26. Nid yw hyn wedi cael ei gadarnhau eto, ond mae'n debygol mai ffigur tebyg i hyn fydd o.

Mae gennym ni ansicrwydd ynglŷn â chyllidebau'r Cyngor, yn gyffredinol mae yna amrywiaeth o bwysau ansicr. Fe fydd angen dod o hyd i fwy o arbedion yn 25/26 wrth i ni ragweld diffyg pellach gan ddefnyddio pwysau **canolig** o tua £21m. Mae rhywfaint o gamddyfynnu am y sefyllfa ariannol wedi bod yn y wasg.

GD - Mae yna bwysau a heriau am y flwyddyn sydd i ddod. Nid yw rhai o'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd ac fe fyddwn ni'n edrych ar ddarparu gwasanaethau sydd heb fod yn hawdd. Mae'r adran Addysg yn ddiolchgar am gefnogaeth i ysgolion gan y Cynghorydd Gill German.

Cafwyd trafodaeth.

Mae CA yn parchu ac yn deall nad oes yna ddigon o arian. Hyd yn oed wedyn, nid yw toriad arall yn gynaliadwy ac ni allwn lenwi'r bylchau bellach, mae Iechyd wedi tynnu arian yn ôl hefyd.

Ni allai GD anghytuno gyda'r risgiau, fe fydd y cyfan yn cael sgil effeithiau.

Diolchodd NF i'r Cynghorydd Gill German a Geraint Davies am bopeth maen nhw'n ei wneud o ran pwysau'r gyllideb a rhoi'r newyddion diweddaraf i ysgolion.

Mae disgyblion CA yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU. Os oes yna ddisgyblion mewn ysgolion eraill sydd eisiau gwneud yr fath, e-bostiwch CA.

RJ - Mae yna bryder am yr elfennau diogelwch a phryderon. Mae yna gynnydd mewn ymddygiad gwael a thrais, yn ogystal â disgyblion gydag anghenion cymhleth.

Diolchodd LT i'r grŵp am eu sylwadau.

## 3. Grantiau

DP - Roedd yna rywfaint o newid i'r ffordd y mae grantiau'n cael eu dosbarthu eleni fel y trafodwyd yn y fforymau blaenorol. Fe fydd y grant trawsnewidiol Ôl-16 yn cael ei ryddhau pan fydd newidiadau wedi cael eu cymeradwyo.

### 4. Ysgolion mewn Trafferthion Ariannol a Balansau Ysgolion

Mae CH wedi dechrau cyfarfod ag ysgolion sy'n darogan diffyg ar gyfer 2024/25. Mae angen cyflwyno trwyddedau diffyg a lofnodwyd gan Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr i CH erbyn dydd Gwener 24 Mai. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar 5 Mehefin i fynd drwy geisiadau gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Addysg gyda'r bwriad o gytuno ar drwyddedau erbyn diwedd y tymor newydd ym mis Medi.

Fel y fforwm blaenorol, fe gytunwyd y bydd y testun canlynol yn cael ei ychwanegu at y Fframwaith Herio ac Ymyrryd:-

# Y Fforwm Cyllideb Ysgolion

**5. Cynlluniau Cyfun**

Fe anfonodd CAJ adroddiad i'r fforwm cyn y cyfarfod gyda gwybodaeth am orwariant y cynllun cyfun.  Llwyddwyd i wneud arbedion o tua £200,000 gyda'r newidiadau a wnaed i'r cynllun salwch.  Fe soniodd un clwstwr am bryderon gyda'r cynllun salwch oedd yn ymwneud â chostau unionyrchol i gyllidebau'r sgol.

Roedd costau cynllun cyfnod mamolaeth ac ymchwilio wedi cynyddu hefyd.

Mae yna opsiwn i gynyddu'r cyfraniad i'r cynllun.

**CAM GWEITHREDU - cytunodd y fforwm i gynnal y newidiadau i'r cynllun salwch am 12 mis arall.**

**6. Materion Clwstwr**

Ni chodwyd dim.

**7. Unrhyw Fater Arall**

Mynychodd Ruth Thackray gyda chais i adolygu'r pot trosglwyddo, ac yn fwy penodol, meini prawf ac eglurder y cyllid.  Mae yna gynnig i edrych ar ddyraniadau yn ôl clwstwr.

**CAM GWEITHREDU - Wedi'i gytuno gan y fforwm.**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Fforwm ei bod hi'n gadael ei swydd fel Pennaeth Ysgol Uwchradd y Rhyl ym mis Awst.  Fe fydd angen dewis Cadeirydd newydd.  Caiff hyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf ar Teams**